Latest News
From The School of Welsh
Winter 2010 / Spring 2011
Cardiff University
Prifysgol Caerdydd

Professor Colin Williams: Evidence-based best practice

Professor Colin H. Williams, Research Professor at the School of Welsh, has been travelling to various parts of the globe this last year. As an expert in the field of language policy and planning and minority languages, Colin's visits were an opportunity for him to share his expertise and experience and to carry out research and consultancy work. His main aim was to compare the role of Language Commissioners in countries such as Canada and Ireland in order to bring together examples of good practice for us here in Wales, as the post of Language Commissioner is established.

During the year Colin undertook research work in Ireland, Ottawa and Oxford, consulting with Language Commissioners along with law experts and Members of Parliament. He has also been offering advice and evidence to the Assembly's Scrutiny Committee on the Language Measure and giving expert advice to the Welsh Language Board and to pressure groups in Wales.

As well as his research and consultancy work, Colin was invited to deliver a number of lectures world-wide. These included a lecture on 'Parliamentary Language Policies' at the Basque Parliament, Vitoria-Gasteiz, in October 2009; 'Minority Languages in Europe' in Indiana, USA, in October 2010; 'Language Law and the Multilingual State' in Bloemfontein, South Africa, in November 2010; and 'Economic Development' at the UNESCO World Seminar in Alexandria, Egypt, in November 2010.

Full details of Colin's lectures and seminars are available on our website: **www.cardiff.ac.uk/welsh**

Raising Money for Children in Need

During the week leading up to Children in Need day on 19 November, the School of Welsh was busy with a week of fund-raising activities including a Show Your Spots day, a famous faces quiz and a Pudsey cake stall. By the end of the week over £100 was raised.

This activity is a result of the School's Charities Panel, a new panel established in October 2010 comprising of both students and staff. Future activities include raising money for the homeless in Cardiff, taking part in the 'Operation Christmas Child' campaign and a netball tournament between students and staff.

Welsh Ballads Online


GALARGERDD
DDAHWAIN OFNADWY,
AR Y 16eg O ORPHENAF, 1856,
Cywer, gerllaw Pantyprïdd,
LLANIDLOES:

Cardiff University Library and the National Library of Wales have recently completed a new project entitled 'Welsh Ballads Online', which has digitised a cross-section of about 4,000 ballad sheets from their collections and has made them available to the public via the web. They received the specialist support of academics from Swansea, Bangor, Cardiff and Lampeter. The project is funded by a £66,000 grant from JISC (the UK Higher Education IT Organisation). An important element in the project was the development of the 'Welsh Ballads Website', under the editorship of Dr E. Wyn James of the School of Welsh, as a portal to provide access to the digitised ballads and academic resources to contextualise their study.

Over the centuries the ballad has played an important and influential role in Welsh social and cultural life. Broadside ballad production was in its heyday in Wales in the eighteenth and nineteenth centuries. Although more than 10,000 of these ballad sheets have survived, many are rare, and some copies are unique, and a number of them are fragile and worn. The website allows free access to these sheets for those interested in the language, literature, history, religion and music of modern Wales. This is an indispensable source for the study of the daily life and world-view of the common people of Wales in the modern period.

The digital versions of the ballads may be accessed through the Welsh Ballads Website.

www.cardiff.ac.uk/insrv/libraries/scolar/digital/welshballads/welshballadswebsite.html

Focus on Research

Awen Schiavone

Awen Schiavone has just embarked on an MPhil on aspects of adventure writing for children. As well as studying part-time, she is also a teacher of Welsh at Ysgol Gyfun Glantaf. She decided to return to the University this year to study this new area of research. Awen is working under the supervision of Dr Siwan Rosser who co-ordinates an undergraduate module on Children's Literature. If you would like more information about our part-time degrees, please contact Dr Siwan Rosser who is also the School's Director of Postgraduate Research Students.

Lisa Sheppard

Lisa Sheppard is the first student to undertake our new MPhil in Creative and Critical Writing. Having graduated from Cardiff last year in Welsh and English Literature, she decided to enrol on the degree programme because she enjoyed the scriptwriting module and also the undergraduate research dissertation which she wrote on the subject of Cardiff and Welsh identity in the urban novel (1978-2008). Her MPhil will focus on writing for the theatre; she will have the opportunity to work with prominent writers such as Sian Summers, Gareth Miles and Manon Eames. Lisa says that she has been influenced by Welsh playwright Wil Sam and also admires the work of Carol Churchill and Samuel Becket. In the future she hopes to write professionally for the theatre or continue with her research.

Bill Roberts



Having taken classes in History and Folklore at the Centre for Lifelong Learning, Bill Roberts enrolled on the School's MA in Welsh Ethnological Studies, graduating with a distinction in 2010 – his dissertation focused on Welsh rugby supporters and identity. He is now a part-time PhD student, researching into popular participation in events and ceremonies in Cardiff in the 21st century. This involves research in areas such as folklore, ritual, civic history, urban studies, audiences and crowds and group dynamics.

Student in Swaziland

Robert Mansel Lewis is one of our second year students studying Welsh and French. Over the summer he worked for three months at an Orphanage in Swaziland, a landlocked country in southern Africa. Here Robert talks about this unforgettable experience.

Like Wales, Swaziland is a small and mountainous country but with many wild animals such as zebras in the rural areas which attract many visitors. Beyond the beauty, however, the people are suffering in different ways. Poverty is very common and AIDS is a massive problem. I worked with a charity called "Teen Challenge" which tries to raise awareness about AIDS and how to prevent it.

My work in the orphanage involved teaching English and Science; I also did a lot of maintenance jobs and worked with the local community to build gardens for the poorest families. But what I enjoyed most was working as a youth pastor every Friday night as it was an opportunity to chat with the children of the orphanage, talk about life in Cardiff and discuss the gospel.

I would like to return to Swaziland once I have raised enough money. I look forward to seeing old friends and to further contributing to the wonderful work that is being done there.

Tea and Talks in Patagonia

The links between the School of Welsh and its Centre for Welsh American Studies and academics in Argentina's National University of Patagonia continue to strengthen, thanks to an exchange programme generously supported by Banco Santander.

A very successful visit to Cardiff by four academics from the National University of Patagonia in February 2010 was followed in September by a visit to Patagonia by the co-Directors of the Centre – Dr E. Wyn James and Dr Bill Jones – together with Walter Brooks, a researcher in the Centre. The main purpose of the visit was to deliver lectures at three academic conferences – a conference on Patagonian identities at the Comodoro Rivadavia branch of the National University, one on the literatures of Patagonia at the Trelew branch, and one specifically on the Welsh in Patagonia in the branch of the University based in Porth Madryn. Their papers were very well received, with much discussion and networking ensuing. Some of the papers have already been published in electronic form, and others will appear in print in academic journals and volumes in Britain and in Argentina.

As well as delivering lectures, they had the opportunity to attend the Young People's Eisteddfod in Gaiman and to visit the Welsh Society in Comodoro Rivadavia, an industrial city 200 miles south of the 'original' Welsh colony in the Chubut Valley. They also were privileged to be the first people from Wales to visit the newly formed Welsh Society at Sarmiento, a vast valley in the mountains to the west of Comodoro, where they received a warm reception, including a traditional Patagonian 'Welsh tea' and an official welcome by the local Mayor.

Two new staff members

The School of Welsh welcomes two new staff members. Dr Patrick Carlin and Miss Jennifer Marshall have been appointed as Research Associate and Research Assistant of a new research project to improve the way the Welsh language is transferred to adults. The project is funded by a £300,000 grant from the Welsh Assembly Government. The team, led by Dr Diarmait Mac Giolla Chríost of the School of Welsh, includes Dr Rachel Heath-Davies and Dr Adrian Price from the Cardiff and Vale of Glamorgan Welsh for Adults Centre along with Professor Alison Wray of the Centre for Language and Communication Research at Cardiff University.

With a background in local government, Patrick completed his PhD in the Department of International Politics, Aberystwyth University in 2009. Following completion of his thesis, Patrick worked on the 'Welsh Language Acts and Welsh Language activism, 1964-2001' pilot project funded by the University of Wales Publications and Collaborative Research Committee.

After studying Linguistics and Spanish at Leeds, Jenny went to the School of Oriental and African Studies at the University of London, to complete an MA on Endangered Languages before working for the SOAS Linguistics department and the Endangered Languages Archive there.

For further information, contact
School of Welsh, Cardiff University, Humanities Building, Colum Drive, Cardiff CF10 3EU

Phone: 029 2087 4843
E-mail: cymraeg@caerdydd.ac.uk
Website: www.cardiff.ac.uk/welsh

Newyddion Diweddaraf

o Ysgol y Gymraeg

Gaeaf 2010 / Gwanwyn 2011

CARDIFF UNIVERSITY

PRIFYSGOL CAERDYDD

Yr Athro Colin Williams: Codi a lledaenu arfer da

Mae'r Athro Colin H. Williams, Athro Ymchwil yn Ysgol y Gymraeg, wedi bod yn teithio i bedwar ban byd dros y flwyddyn ddiwethaf. Fel arbenigwr ym maes cynllunio a pholisi ieithyddol ac ieithoedd lleiafrifol, roedd ymweliadau Colin yn gyfle iddo rannu ei arbenigedd a'i brofiad ac i wneud gwaith ymchwil a gwaith ymgynghorol. Ei brif nod ar yr ymweliadau hyn oedd cymharu swyddogaeth Comisiynwyr Iaith mewn gwledydd megis Canada ac Iwerddon er mwyn cynnig arfer da a thystiolaeth inni yng Nghymru wrth i rôl y Comisiynydd Iaith gael ei sefydlu yma.

Yn ystod y flwyddyn bu Colin yn gwneud gwaith ymchwil yn Iwerddon, Ottawa a Rhydychen gan ymgynghori â Chomisiynwyr Iaith ynghyd ag arbenigwyr yn y gyfraith ac Aelodau Seneddol. Bu hefyd yn cynnig cyngor a thystiolaeth i Bwyllgor Sgriwtineiddio'r Cynulliad ar y Mesur Iaith ac yn rhoi cyngor arbenigol i Fwrdd yr Iaith Gymraeg ac i fudiadau pwyso yng Nghymru.

Yn ogystal â'i waith ymchwil ac ymgynghorol, gwahoddwyd Colin i draddodi nifer o ddarlithoedd dros y byd i gyd. Ymhlith y rhain yr oedd darlith ar 'Systemau Rheoleiddio Ieithoedd Swyddogol' yn Senedd Gwlad y Basg, Vitoria-Gasteiz, ym mis Hydref 2009; 'Ieithoedd Lleiafrifol Ewrop' yn Indiana, UDA, ym mis Hydref 2010; 'Iaith a'r Gyfraith' yn ninas Bloemfontein yn Ne Affrica, ym mis Tachwedd 2010, a 'Datblygu Economaidd' yn seminar UNESCO yn Alexandria, Yr Aifft, ym mis Tachwedd 2010.

Ceir manylion llawn am ddarlithoedd a seminarau Colin yn ystod y flwyddyn ar ein gwefan **www.caerdydd.ac.uk/cymraeg**

Casglu arian at Blant mewn Angen

Yn ystod yr wythnos yn arwain at ddiwrnod Plant Mewn Angen ar 19 Tachwedd, bu Ysgol y Gymraeg yn brysur yn codi arian drwy gynnal gweithgareddau megis diwrnod gwisgo dillad smotiog, cwis enwogion a stondin gwerthu cacennau Pudsey. Erbyn diwedd yr wythnos casglwyd dros £100.

Ffrwyth llafur Panel Elusen Ysgol y Gymraeg yw'r gweithgarwch hwn, panel newydd a sefydlwyd ym mis Hydref 2010 ar y cyd rhwng y myfyrwyr a'r staff. Yn y dyfodol y gobaith yw codi arian i helpu'r digartref yng Nghaerdydd, cymryd rhan yn yr ymgyrch 'Operation Christmas Child' a threfnu twrnament pêl-rwyd rhwng y myfyrwyr a'r staff.

Baledi Cymru Ar-lein



GALARGERDD

DDAMWAIN OFNADWY,

AR Y 15fed O ORPHENAF, 1856,

Yn Ngwaith Glo INSOLE & Co.,

Cymer, gerllaw Pontypridd,

LLANIDLOES:

Mae Llyfrgell Prifysgol Caerdydd a Llyfrgell Genedlaethol Cymru wedi cwblhau prosiect newydd o'r enw 'Baledi Cymru Ar-lein', sydd wedi digido croestoriad o tua 4,000 o'r taflenni baledi sydd yn eu casgliadau a'u rhoi ar gael i'r cyhoedd trwy'r we. Cawsant gymorth arbenigol academyddion o Abertawe, Bangor, Caerdydd a Llanbedr Pont Steffan. Ariennir y prosiect gan grant o £66,000 oddi wrth JISC (y corff sy'n hybu technoleg gwybodaeth yn y sector addysg uwch). Rhan bwysig o'r prosiect oedd datblygu 'Gwefan Baledi Cymru', dan olygyddiaeth Dr E. Wyn James o Ysgol y Gymraeg, i fod yn borth mynediad i'r baledi sydd wedi'u digido ac i ddarparu adnoddau academaidd ar gyfer eu cyd-destunoli.

Dros y canrifoedd bu'r faled yn ffurf bwysig a dylanwadol ym mywyd cymdeithasol a diwylliannol Cymru. Roedd cynhyrchu taflenni baledi yn ei anterth yng Nghymru yn y ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Er bod dros 10,000 o'r taflenni baledi hyn wedi goroesi mae llawer ohonynt yn brin, a rhai yn gopïau unigryw, ac y mae llawer yn frau ac yn dangos ôl traul. Mae'r wefan yn caniatáu i'r sawl sy'n ymddiddori yn niwylliant poblogaidd, llên, hanes, crefydd a cherddoriaeth y Cymry astudio'r taflenni hyn dros y we yn rhad ac am ddim. Dyma ffynhonnell sy'n anhepgor i'r sawl sydd am gael cip ar fywyd a byd-olwg pobl gyffredin Cymru yn y cyfnod modern.

Mae modd mynd at y fersiynau digidol o'r baledi drwy Wefan Baledi Cymru

www.caerdydd.ac.uk/insrv/libraries/scolar/digital/welshballads/welshballadswebsite.html

Ffocws ar Ymchwil

Awen Schiavone

Mae Awen Schiavone newydd ddechrau MPhil ar ddeuoliaeth mewn llyfrau antur i blant. Yn ogystal ag astudio'n rhan-amser, mae'n gweithio hefyd fel athrawes Gymraeg yn Ysgol Gyfun Glantaf. Graddiodd Awen o Ysgol y Gymraeg yn 2006, a phenderfynu dychwelyd i'r Brifysgol eleni er mwyn ymchwilio i'r maes newydd a blaengar hwn. Mae'n gweithio dan gyfarwyddyd Dr Siwan Rosser sy'n cydlynu modiwl is-raddedig ar Lenyddiaeth Plant. Os hoffech ragor o wybodaeth ynglŷn â'n graddau rhan-amser, cysylltwch â Dr Siwan Rosser sydd hefyd yn Gyfarwyddwr Myfyrwyr Ymchwil yr Ysgol.

Lisa Sheppard

Lisa Sheppard yw'r fyfyrwraig gyntaf i ddilyn ein cwrs MPhil newydd mewn Ysgrifennu Creadigol a Beirniadol. Graddiodd Lisa o Gaerdydd y llynedd yn y Gymraeg a Llenyddiaeth Saesneg. Penderfynodd ddilyn gradd uwch gan ei bod wedi mwynhau'r modiwl Sgriptio a hefyd y modiwl Blas ar Ymchwil sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr ysgrifennu traethawd estynedig; pwnc traethawd Lisa oedd 'Cymreictod y Concrit: Caerdydd a Hunaniaeth Gymraeg yn y Nofel Ddinesig 1978- 2008'. Bydd ei MPhil yn canolbwyntio ar y ddrama lwyfan a chaiff gyfle i gydweithio â llenorion amlwg fel Sian Summers, Gareth Miles a Manon Eames. O ran ysbrydoliaeth a dylanwad mae hi'n mwynhau dramâu Wil Sam yn fawr a hefyd yn edmygu gwaith Carol Churchill a Samuel Becket. Yn y dyfodol mae hi'n gobeithio ysgrifennu'n broffeisynol ym maes y theatr neu barhau â'i hymchwil.

Bill Roberts

Ar ôl dilyn dosbarthiadau mewn Hanes a Llên Gwerin yn y Ganolfan Dysgu Gydol Oes, astudiodd Bill Roberts ar gyfer yr MA mewn Astudiaethau Gwerin yn Ysgol y Gymraeg gan raddio gyda chlod yn 2010 – pwnc ei draethawd estynedig oedd cefnogwyr rygbi Cymru a hunaniaeth. Erbyn hyn mae'n fyfyriwr PhD rhan-amser ac yn ymchwilio i sut mae'r cyhoedd yn cyfrannu i ddigwyddiadau poblogaidd a seremonïau yng Nghaerdydd yn yr unfed ganrif ar hugain. Mae hyn yn cynnwys ymchwil ym maes llên gwerin, hanes dinesig, astudiaethau trefol, cynulleidfaoedd a thorfeydd a deinameg grwpiau.

Myfyriwr yn Swasiland

Mae Robert Mansel Lewis yn fyfyriwr yn yr ail flwyddyn ac yn astudio'r Gymraeg a'r Ffrangeg. Yn ystod yr haf eleni bu'n gweithio am dri mis mewn cartref plant amddifad yn Swasiland, gwlad dirgloëdig yn ne Affrica. Dyma Robert yn sôn am ei brofiad bythgofiadwy.

Fel Cymru mae Swasiland yn wlad fechan a mynyddig ond yn yr ardaloedd gwledig ceir anifeiliaid gwyllt fel sebraod sydd yn denu llawer o ymwelwyr i'r wlad. Y tu ôl i'r harddwch, fodd bynnag, mae pobl yn dioddef. Mae tlodi yn gyffredin iawn yno ac y mae AIDS yn broblem enfawr. Roeddwn i'n gweithio gydag elusen o'r enw "Teen Challenge" sydd yn ceisio codi ymwybyddiaeth o AIDS a sut i'w osgoi.

Fy ngwaith yn y cartref plant amddifad oedd dysgu Saesneg a Gwyddoniaeth; roeddwn hefyd yn gwneud llawer o waith cynnal a chadw a gweithio gyda'r gymuned leol yn adeiladu gerddi ar gyfer teuluoedd tlawd iawn. Ond yr hyn a roddodd y pleser mwyaf imi oedd gweithio fel bugail ieuenctid bob nos Wener, oherwydd roedd yn gyfle i siarad gyda phlant y cartref, sôn am fywyd yng Nghaerdydd a thrafod yr efengyl.

Hoffwn fynd yn ôl i Swasiland ar ôl imi godi digon o arian; edrychaf ymlaen at weld hen ffrindiau a pharhau i gyfrannu at y gwaith ardderchog sydd yn cael ei wneud yno.

Te a Thrafod yn y Wladfa

Parhau i ddatblygu y mae'r cysylltiadau rhwng Ysgol y Gymraeg a'i Chanolfan Uwchefrydiau Cymry America ac academyddion ym Mhrifysgol Genedlaethol Patagonia, diolch i gynllun cyfnewid a gefnogir gan Banco Santander.

Yn dilyn ymweliad llwyddiannus iawn gan bedwar o aelodau staff Prifysgol Genedlaethol Patagonia â Chaerdydd ym mis Chwefror 2010, aeth cyd-Gyfarwyddwyr y Ganolfan – Dr E. Wyn James a Dr Bill Jones – ynghyd â Walter Brooks (sy'n ymchwilydd yn y Ganolfan) i Batagonia ym mis Medi i draddodi darlithoedd mewn tair cynhadledd academaidd – cynhadledd ar hunaniaethau Patagonia yng nghangen Comodoro Rivadavia o'r Brifysgol Genedlaethol, un ar lenyddiaethau Patagonia yng nghangen y Brifysgol yn Nhrelew, ac yna un yn benodol ar y Cymry ym Mhatagonia yn y gangen o'r Brifysgol sydd ym Mhorth Madryn. Cafwyd ymateb brwd i'w papurau, a llawer o gyfleoedd i drafod a rhwydweithio. Cyhoeddwyd rhai o'u papurau eisoes ar ffurf electronig, a bydd eraill ar gael mewn print maes o law, mewn cyfrolau a chylchgronau academaidd ym Mhrydain ac Ariannin.

Yn ogystal â darlithio, cafodd y tri gyfle hefyd i ymweld ag Eisteddfod yr Ifainc yn y Gaiman ac â Chymdeithas Gymreig Comodoro Rivadavia, dinas ddiwydiannol 200 milltir i'r de o'r Wladfa 'wreiddiol' yn Nyffryn Camwy. Cawsant y fraint hefyd o fod y bobl gyntaf o Gymru i ymweld â Chymdeithas Gymreig sydd newydd ei sefydlu yn Sarmiento, tref mewn dyffryn eang yn y mynydd-dir i'r gorllewin o Comodoro. Cafodd y tri groeso tywysogaidd yno, gan gynnwys 'te Cymreig' Patagonaidd traddodiadol a chroeso swyddogol gan Faer y dref.

Dau aelod newydd o staff

Mae Ysgol y Gymraeg yn croesawu dau aelod newydd o staff. Mae Dr Patrick Carlin a Miss Jennifer Marshall wedi'u penodi'n Gydymaith ac yn Gynorthwyydd Ymchwil i weithio ar ein prosiect ymchwil peilot newydd sydd yn edrych ar sut y gellir gwella'r ffordd y trosglwyddir yr iaith Gymraeg i oedolion. Ariennir y prosiect gan grant o fwy na £300,000 gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r tîm yn cynnwys Dr Diarmait Mac Giolla Chríost o Ysgol y Gymraeg, Dr Rachel Heath-Davies a Dr Adrian Price o Ganolfan Cymraeg i Oedolion Caerdydd a Bro Morgannwg, ynghyd â'r Athro Alison Wray o Ganolfan Ymchwil Iaith a Chyfathrebu Prifysgol Caerdydd.

Gyda chefndir ym myd llywodraeth leol, cwblhaodd Patrick ei ddoethuriaeth yn Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol, Prifysgol Aberystwyth yn 2009. Aeth yn ei flaen i weithio ar brosiect ymchwil 'Deddfau'r Gymraeg a gweithredu dros y Gymraeg, 1964-2001' a ariannwyd gan Bwyllgor Cyhoeddiadau ac Ymchwil Gydweithredol Prifysgol Cymru.

Wedi iddi gwblhau gradd mewn Ieithyddiaeth a Sbaeneg yn Leeds, aeth Jenny i'r Ysgol Astudiaethau Dwyreiniol ac Affricanaidd (SOAS) ym Mhrifysgol Llundain, i gwblhau MA ar Ieithoedd mewn Perygl ac wedi hynny bu'n gweithio i'r adran Ieithyddiaeth yn SOAS a'r Archif Ieithoedd mewn Perygl.

Am ragor o wybodaeth, cysylltwch ag Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, Adeilad y Dyniaethau, Rhodfa Colum, Caerdydd CF10 3EU

Ffôn: 029 2087 4843
E-bost: cymraeg@caerdydd.ac.uk
Gwefan: www.caerdydd.ac.uk/cymraeg